

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro Briff Ymchwil

11 Hydref 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6315**  
E-bost: **[Joseph.Champion@Cynulliad.Cymru](mailto:Joseph.Champion@Cynulliad.Cymru)**  
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**  
Blog: **[SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# **Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro**

## Briff Ymchwil

11 Hydref 2018

---

**Awduron:**

Joseph Champion a Gethin Davies



## Cynnwys

### **Cyflwyniad ..... 1**

Crynodeb o'r datblygiadau ..... 1

### **Y datblygiadau diweddaraf ..... 3**

Negodiadau ar y Cytundeb Ymadael ..... 3

Y berthynas yn y dyfodol ..... 5

Cynadleddau'r Pleidiau Gwleidyddol ..... 6

Deddfwriaeth y DU ..... 7

### **Meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor**

### **Materion Allanol ..... 8**

Parodrwydd ..... 8

Cymru a'r byd ..... 8

Y Gronfa Ffyniant Gyffredin ..... 9

Dangosyddion Daearyddol ..... 9

Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru ar ôl Brexit ..... 10

Newid i Reolau Sefydlog y Cynulliad ..... 10

### **Ymateb Llywodraeth Cymru ..... 11**

Paratodau ar gyfer ymadael â'r UE ..... 11

Dyraniadau Cronfa Bontio yr UE ..... 12

---

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â negodiadau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â'r UE ers 17 Medi 2018.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb o'r datblygiadau diweddaraf yn y negodiadau a deddfwriaeth gysylltiedig y DU;
- Dadansoddiad o'r prif faterion o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (y Pwyllgor); a
- Chrynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

## Crynodeb o'r datblygiadau

- Ar 18 Medi, gwnaeth Michel Barnier **ddatganiad** yn dilyn cyfarfod y Cyngor Materion Cyffredinol yn amlinellu safbwynt yr UE mewn perthynas â'r ateb wrth gefn ar gyfer Gogledd Iwerddon.
- Hefyd ar 18 Medi, cyhoeddodd Donald Tusk **lythyr gwahodd a briff cefndirol** cyn **Uwchgynhadledd Salzburg** a gynhaliwyd ar 19-20 Medi.
- Y diwrnod hwnnw hefyd, cyhoeddodd y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo ei **adroddiad** yn cynnwys argymhellion ynghylch y dulliau y gallai'r DU eu defnyddio yn y dyfodol mewn perthynas ag ymfudo. Ar 24 Medi, cyhoeddodd Sefydliad Bevan **ddogfen** yn trafod beth allai adroddiad y Pwyllgor ei olygu i Gymru.
- Ar 20 Medi, cyhoeddodd Sefydliad Bevan **bapur gwyntyllu** yn ystyried sut y dylai prifysgolion Cymru ymateb i'r Gymru a fydd ohoni ar ôl Brexit.
- Hefyd ar 20 Medi, gwnaeth Donald Tusk **ddatganiad** yn amlinellu canlyniadau Uwchgynhadledd Salzburg.
- Ar 21 Medi, gwnaeth Theresa May **araith** y tu allan i Downing Street yn ymateb i eiriau Donald Tusk. Ymatebodd Tusk mewn **datganiad** ei hun yn disgrifio cynllun Chequers i fod yn 'gam i'r cyfeiriad cywir'.
- Yn dilyn yr hyn a ddywedwyd yn flaenorol mai lle'r UE oedd i wneud gwrthgynnig, dywedodd **llefarydd ar ran Downing Street** ar 24 Medi y byddai Llywodraeth y DU hefyd yn cyflwyno cynigion ar gyfer yr ateb wrth gefn mewn perthynas â ffin Gogledd Iwerddon.

- Hefyd ar 24 Medi, cyhoeddwyd y trydydd casgliad o **hysbysiadau dim bargaen** gan Lywodraeth y DU, sef y casgliad olaf.
- Ar 25 Medi, fe wnaeth yr Ysgrifennydd Cartref Sajid Javid draddodi **araith ym Madrid** ynghylch perthynas y DU a'r UE yn y dyfodol mewn perthynas â diogelwch.
- Mae wedi bod yn doriad yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ill dau rhwng 13 Medi a 9 Hydref. Cynhaliwyd cynhadledd y blaid Lafur rhwng 23 a 26 Medi. Cynhaliwyd cynhadledd y blaid Geidwadol rhwng 30 Medi a 3 Hydref.
- Yn ystod ymweliad â Krakow ar 6 Hydref, dywedodd **Donald Tusk** ei fod yn obeithiol o daro bargaen.
- Cynhaliodd Arlene Foster, arweinydd y DUP, **gyfarfod** â Michel Barnier ar 9 Hydref i drafod y llinellau coch o ran masnach.
- Ar 9 Hydref, fe wnaeth Dominic Raab **Ddatganiad Gweinidogol** yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch paratodau'r DU ar gyfer gadael yr UE.
- Ar 10 Hydref, fe wnaeth Michel Barnier yntau roi **diweddariad ar y trafodaethau.**

## Y datblygiadau diweddaraf

### Negodiadau ar y Cytundeb Ymadael

Y datblygiad amlycaf a gafwyd ers yr adroddiad diwethaf yw **Uwchgynhadledd Anffurfiol Arweinwyr yr UE yn Salzburg** ar 19-20 Medi. Ar 18 Medi, cyhoeddodd Donald Tusk **lythyr gwahodd** yn cynnwys ei amcanion ar gyfer y cyfarfod. Ochr yn ochr â'r llythyr, cyhoeddwyd **briff cefndirol** yn amlinellu'r agenda, a oedd yn cynnwys trafod diogelwch mewnol, mewnfudo a Brexit.

Cyn yr uwchgynhadledd, ar 18 Medi, cyhoeddodd Michel Barnier **ddatganiad i'r wasg yn dweud** bod yr UE yn barod i wella ei gynnig ynghylch yr ateb wrth gefn mewn perthynas â ffin Gogledd Iwerddon. Dywedodd fod yr UE yn cadarnhau pa nwyddau y byddai angen eu gwirio ar y ffin wrth iddynt ei chroesi. Dywedodd hefyd fod yr UE yn credu y gallai'r rhan fwyaf o'r gwiriadau gael eu cynnal mewn safle oddi wrth y ffin.

Ystyriwyd bod yr uwchgynhadledd yn Salzburg, yn y DU o leiaf, yn gyfle i Brif Weinidog y DU ddwyn perswâd ar benaethiaid y gwladwriaethau eraill ynghylch manteision cynllun Chequers. Fodd bynnag, yn dilyn yr uwchgynhadledd, fe wnaeth Arlywydd Cyngor Ewrop, Donald Tusk, sylwadau yn **amlinellu canlyniadau** trafodaethau Brexit, ac ailddatganodd:

[...] there will be no Withdrawal Agreement without a solid, operational and legally binding Irish backstop. [...] while there are positive elements in the Chequers proposal, the suggested framework for economic cooperation will not work. Not least because it risks undermining the Single Market.

Nododd hefyd oni bai fod 'cynnydd a chanlyniadau sylweddol iawn' yn y negodiadau erbyn cyfarfod Cyngor Ewrop ym mis Hydref, hwyrach na fydd yr UE yn galw am yr uwchgynhadledd ychwanegol a ddisgwylir fis Tachwedd i gytuno ar fargen derfynol.

Ar 21 Medi, ymatebodd Theresa May **mewn datganiad ei hun**. Yn y datganiad hwnnw, meddai Prif Weinidog y DU:

At this late stage in the negotiations, it is not acceptable to simply reject the other side's proposals without a detailed explanation and counter proposals.

Dywedodd Theresa May hefyd fod y DU yn disgwyl cael ei thrin â pharch yn y negodiadau, gan ddatgan bod perthynas dda ar ddiwedd y broses yn dibynnu ar y parch hwnnw.

**Ymatebodd Tusk yntau ar yr un diwrnod** gan gadarnhau bod yr UE yn ystyried ei bod yn bwysig creu'r berthynas orau bosibl rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol, ac meddai y byddai'r UE yn trin cynllun Chequers fel 'cam i'r cyfeiriad cywir'. Ond wedi dweud hynny, ailddatganodd safbwynt yr UE:

[...] issues, such as the Irish question, or the rules of economic cooperation, the UK's proposals will need to be reworked and further negotiated

Ar 24 Medi, yn dilyn cyfarfod â Guy Verhofstadt, **dywedodd Llywodraeth y DU mewn datganiad** y byddai'n cyflwyno cynigion pellach ynghylch yr ateb wrth gefn mewn perthynas â ffin Gogledd Iwerddon.

Ar 9 Hydref, fe wnaeth Dominic Raab **ddatganiad gweinidogol** gan ailddatgan cefnogaeth Llywodraeth y DU i bapur gwyn Chequers, a'i ddisgrifio fel 'y ffordd orau i sicrhau y parheir â masnach dirwyrstr ar gyfer nwyddau' ac osgoi ffin galed yn Iwerddon. Galwodd ar yr UE i ddangos 'yr un uchelgais a phragmatiaeth â Llywodraeth y DU' ac meddai ei fod yn grediniol y gellir taro bargaen dros yr hydref.

Fe wnaeth negodwr yr UE, **Michel Barnier, roi ei ddiweddariad ei hun** mewn datganiad ar 10 Hydref. Yn y datganiad hwnnw, nododd safbwynt yr UE ar hyn o bryd ynghylch ffin Iwerddon/Gogledd Iwerddon. Dywedodd pe byddai'r DU yn gadael Undeb Tollau a Marchnad Sengl yr UE, y byddai'n rhaid cynnal gwiriadau ar gyfer nwyddau sy'n cael eu cludo rhwng yr UE a'r DU. Ond wedi dweud hynny, nododd mai bwriad yr UE yw cynnal y gwiriadau hyn mewn modd sy'n amharu cyn lleied â phosibl.

I sicrhau y bydd hyn yn digwydd, mae'r UE yn cynnig y dylid defnyddio ei **weithdrefnau presennol ar gyfer tollau cludo** wrth godi ardollau a TAW gan ddefnyddio **awdurdodau goruchwyllo marchnadoedd** i wneud gwiriadau rheoleiddio. Drwy ddefnyddio'r dulliau hynny, mae'r UE yn credu y gall osgoi cynnal gwiriadau ar y ffin yn gyfan gwbl.

Yn ei araith, nododd Michel Barnier sut y gallai'r gweithdrefnau hyn weithio'n ymarferol. Cadarnhaodd hefyd y byddai cynigion yr UE yn golygu na fyddai Gogledd Iwerddon yn cael unrhyw fuddion na fyddai unrhyw wlad trydydd parti arall yn eu cael, ac eithrio'r Farchnad Drydan Sengl a'r Ardal Deithio Gyffredin rhwng y DU ac Iwerddon. Ymhellach, dywedodd y gallai unrhyw fargen a geir ar berthynas yn y dyfodol ynddo'i hun liniaru'r gwiriadau sydd eu hangen, neu hyd yn oed olygu nad oes angen rhai gwiriadau o gwbl.

Bydd Brexit yn cael ei drafod yn **uwchgynhadledd nesaf Cyngor Ewrop, wedi'i drefnu ar gyfer 17-18 Hydref**. Os ceir cynnydd bryd hynny, byddai'r uwchgynhadledd ychwanegol yn cael ei chynnal ar 17-18 Tachwedd.

## Y berthynas yn y dyfodol

Ar 18 Medi, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyngori ar Fewnfudo ei adroddiad ar **effaith mewnfudo o Ardal Economaidd Ewrop** ar y DU. Yn gyffredinol, canfuwyd:

[...] we do think that EEA migration has had impacts, many of them seem to be small in magnitude when set against other changes. The fall in the value of the Pound after the referendum vote to leave the EU probably raised prices by 1.7 per cent - this is almost certainly a larger impact than the effect on wages and employment opportunities of residents from all the EEA migration since 2004.

Ar sail y gwaith ymchwil, fe wnaeth argymhellion i Lywodraeth y DU mewn perthynas â phenderfynu ei pholisi ymfudo ar gyfer y dyfodol. O ran ymfudo at ddibenion gwaith, dyma oedd ei argymhelliad lefel uchel:

If the UK is in a position where it is deciding the main features of its immigration policy our recommendation is that there should be a less restrictive regime for higher-skilled workers than for lower-skilled workers in a system where there is no preference for EEA over non-EEA workers... For lower-skilled workers, we do not see the need for a work-related scheme with the possible exception of a seasonal agricultural workers scheme.

Cyhoeddodd Sefydliad Bevan erthygl yn ystyried yr hyn a allai canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor ei **olygu i Gymru**. I grynhoi, mae'n rhybuddio bod ymfudwyr isel eu sgiliau yn cynrychioli rhannau pwysig o'r gweithlu mewn sectorau megis: cynhyrchu bwyd (25.6% o gyfanswm y gweithlu); llety a lletygarwch (5.4%); a gweithgarwch y gwasanaethau gweinyddu a chymorth nad ydynt yn broffesiynol (3.9%). O ganlyniad, gallai cyfyngu ar symudiad y gweithwyr hynny arwain at ostyngiad yn y gweithlu ar gyfer swyddi o'r fath yn y dyfodol.

Mewn datganiad ar 2 Hydref, cyhoeddodd Theresa May **ei bwriad** i greu system yn seiliedig ar sgiliau gan roi blaenoriaeth i weithwyr uchel eu sgiliau.

Mewn trydariad ar 3 Hydref, **cyhoeddodd Guy Verhofstadt:**

On Brexit, we will never accept discrimination based on skills and nationality. We will never accept an extension on article 50.

Ar 25 Medi, fe draddododd yr Ysgrifennydd Cartref Sajid Javid **araith** ym Madrid yn trafod pwysigrwydd parhau â'r trefniadau cydweithio rhwng y DU a'r UE ar faterion diogelwch. Er yr effaith y bydd Brexit yn ei chael, cadarnhaodd:

[...] we can make these changes and others without undermining the day-to-day operational co-operation which plays such an important role in keeping European citizens safe.

## Cynadleddau'r Pleidiau Gwleidyddol

Yn ystod **cynhadledd y blaid Lafur** ar 25 Medi, dywedodd Keir Starmer AS mai safbwynt ei blaid oedd 'parhau yn yr undeb tollau gyda'r UE ac o fewn y Farchnad Sengl' yn ystod y cyfnod pontio. Wrth ymwrthod â datganiad y Llywodraeth fod 'dim bargaen' yn opsiwn dichonadwy, dywedodd yr Ysgrifennydd Brexit Cysgodol y byddai parhau mewn rhyw fath o undeb tollau â'r UE yn rhywbeth y byddai'r Blaid Lafur yn ei ystyried fel datrysiad terfynol. Aeth Keir Starmer yn ei flaen i ddweud nad oes neb yn diystyru'r opsiwn o aros yn yr UE pe byddai'r Blaid Lafur yn cynnal ail refferendwm.

Y diwrnod canlynol, roedd Jeremy Corbyn yn **pwysu am** Etholiad Cyffredinol yn hytrach nag ail refferendwm, gan ddweud wrth Brif Weinidog y DU 'if you can't negotiate that deal then you need to make way for a party that can'. Fodd bynnag, damcaniaethol yw'r safbwyntiau hyn wrth gwrs. Pe byddai pleidlais ar Gytundeb Ymadael, dywedodd Corbyn y byddai'r Blaid Lafur yn pleidleisio yn erbyn cynllun Chequers, neu beth bynnag sydd ar ôl o'r cynllun hwnnw, ac yn gwrthod gadael yr UE heb fargaen.

Yng nghynhadledd y blaid Geidwadol ar 3 Hydref, fe wnaeth Theresa May osgoi crybwyll cynllun Chequers. **Datganodd nad yw Prydain ofn gadael** heb fargaen 'os oes rhaid', ond meddai nad oes neb yn dymuno cael bargaen yn fwy na hi. Dywedodd ei bod yn ofalus rhag diystyru 'dim bargaen' gan y byddai hynny'n gwanhau sefyllfa'r DU wrth negodi. Ddeuddydd ynghynt, dywedodd Dominic Raab yn ei araith y **dylai'r UE ymddifrifoli** os oeddent yn dymuno taro bargaen, a hynny ar unwaith. At hynny, fel yr adroddwyd yn eang ar y cyfryngau, fe wnaeth Jeremy Hunt **ymdebygu'r UE** i'r Undeb Sofietaidd. Condemniwyd sylwadau Mr

Hunt gan benaethiaid yr UE.

## Deddfwriaeth y DU

Ar 13 Medi, cafodd **Deddf Trethiant (Masnach Trawsffiniol) 2018** Gydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf yn galluogi Llywodraeth y DU i greu ardollau gweithredol, TAW a chyfundrefn tollau ar gyfer y DU ar ôl Brexit. Nid oedd arno angen cydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig.

Ar 8 Hydref, fe wnaeth Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad gyhoeddi adroddiad yn **craffu ar reoliadau a wneir o dan y Bil Masnach**. Mae'r **Bil Masnach** yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu'r Cytundeb ar Gaffael Llywodraethol a chytundeb masnach rhyngwladol, gan sefydlu Awdurdod Cymhorthion Masnach a gosod swyddogaethau ar yr awdurdod hwnnw, ynghyd â chasglu gwybodaeth sy'n ymwneud â masnach, a datgelu gwybodaeth o'r fath. Fe wnaed gwelliannau i'r Bil mewn perthynas â darpariaethau datganoli a chytunwyd arnynt yn ddiwahân yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Hyd yma, nid oes cyhoeddiad ynghylch pryd y bydd y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar gyfer y Bil Masnach.

Ar 10 Hydref, trafododd Aelodau Senedd y DU y **Bil Amaethyddiaeth** ar ei **Ail Ddarlleniad**. Mae'r Bil yn amcanu i ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer ymadael â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a sefydlu systemau newydd ar gyfer cymorth amaethyddol a chymorth rheoli tir ar draws y DU. Mae'r Bil yn amcanu i osod fframwaith ar gyfer polisi Lloegr yn y dyfodol, ac mae hefyd yn cynnwys darpariaethau i ymestyn i'r DU gyfan ac i wahanol rannau o'r DU. Mae Atodlen 3 yn gymwys i Gymru yn benodol, ac mae'n gosod pwerau i Weinidogion Cymru barhau i wneud taliadau i ffermwyr a rheolwyr tir ar ôl Brexit, i wneud newidiadau i gynlluniau cyfredol ac i weithredu cynlluniau yn eu lle. Mae'r darpariaethau wedi'u cynnwys ar gais Llywodraeth Cymru ac mae arnynt angen cydsyniad deddfwriaethol gan y Cynulliad. Bwriedir i'r pwerau hyn bara am gyfnod penodol hyd nes i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei Bil Amaethyddiaeth ei hun, a ddisgwylir cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

## Meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol

### Parodrwydd

Yn natganiad Prif Weinidog y DU yn dilyn Uwchgynhadledd Salzburg, dywedodd fod Llywodraeth y DU yn parhau i baratoi ar gyfer dim bargaen. Ar 24 Medi, cyhoeddwyd y trydydd casgliad o **hysbysiadau technegol**. O blith y 24 hysbysiad, roedd canllawiau ar **hedfan i'r DU ac o'r DU, yswiriant cerbydau**, gwarchod **dangosyddion daearyddol**, cyllid **Cydweithrediad Tiriogaethol Ewrop, prynu a gwerthu coed**, mewnforio **anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid** a **rheoleiddio cemegau** os na cheir bargaen.

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Arglwyddi wedi lansio ei ymchwiliad i **effaith Brexit heb fargen ar iechyd a gofal cymdeithasol**, a derbynir tystiolaeth ysgrifenedig tan 15 Hydref. Ymhlith pethau eraill, bydd yn cymryd tystiolaeth ynghylch beth yw'r effaith debygol a gaiff Brexit heb fargen ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol (boed hynny'n effaith ar gleifion, cyflenwyr y system iechyd a gofal cymdeithasol, darparwyr gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol, staff y GIG neu ofal cymdeithasol, neu bethau eraill).

### Cymru a'r byd

Mae'r Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau **wedi cyhoeddi ei adroddiad ar Werthu Cymru i'r Byd**. Roedd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar fasnach a buddsoddi, twristiaeth ac addysg (hynny yw, myfyrwyr tramor a rhwydweithiau alumni). Bydd rhai o'r argymhellion a wnaed o ddiddordeb o ystyried ymchwiliad y Pwyllgor i **berthynas Cymru ag Ewrop a'r Byd yn y dyfodol**. Mae'r argymhellion perthnasol yn cynnwys cynnig y dylai Llywodraeth Cymru:

- ystyried o ddifrif creu swydd benodol yn y Cabinet i gyfuno'r cyfrifoldebau am fasnach ryngwladol a gweithredu Brexit; a
- bod yn fwy rhagweithiol wrth ddefnyddio'r rhwydwaith presennol o swyddfeydd Tramor a Chymanwlad a'r Adran Fasnach Ryngwladol a chysylltiadau ledled y byd.

## Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Ar 24 Medi, lansiodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad ei **adroddiad ar yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE** pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Nododd y Pwyllgor ei bod yn hanfodol sicrhau ffrydiau cyllido newydd sy'n addas i Gymru.

Mewn **cyfweiliad â BBC Wales ar 30 Medi**, gofynnwyd i Theresa May am lefel y cyllid a'r datganoli y gallai Cymru eu disgwyl ar ôl Brexit mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar draws y DU. Wrth drafod a fyddai Cymru yn cael gymaint o gyllid ag y mae ar hyn o bryd drwy Gronfeydd Strwythurol yr UE, dywedodd:

The point of the shared prosperity fund is that we will be looking at issues of disparities between the nations of the UK – disparities within nations and regions and deciding expenditure of money so that we are ensuring that money is being spent as effectively as possible to deliver for people.

Gofynnwyd i Theresa May hefyd ynghylch lefel y rheolaeth y byddai gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar draws y DU. Dywedodd fod llawer o drafodaethau yn cael eu cynnal ynghylch sut y caiff y gronfa ei strwythuro. Meddai:

I fully recognise the role that the Welsh Government has played and the role that the Welsh Government has played in decisions for Wales. But obviously as we look at the shared prosperity fund across the whole of the UK we want to ensure that we get the right structure and the right processes involved in that so that the money that is being spent is being spent as effectively as possible because it's about delivering for people on the ground.

Ar 25 Medi, cyhoeddodd y Gwasanaeth Ymchwil erthygl yn **dadansoddi'r adroddiad a'r materion ehangach** ynghylch cyllid yr UE.

## Dangosyddion Daaryddol

Mae cyfranogiad y DU yng nghynllun enwau bwyd gwarchoddedig yr UE yn un o'r ychydig faterion sydd heb eu datrys yn y negodiadau ar y Cytundeb Ymadael. Ar 2 Hydref, cyhoeddodd y Gwasanaeth Ymchwil erthygl yn trafod sut y gallai hyn effeithio ar enwau bwyd gwarchoddedig yng Nghymru, megis halen Môn, cig oen Cymreig a chaws Caerffili ar ôl ymadael â'r UE. Mae'r erthygl yn amlinellu sylwadau amryw randdeiliaid ac yn cynnig rhagor o wybodaeth gefndirol ynghylch y cynllun cyfredol.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **hysbysiad technegol dim bargaen ynghylch cynnyrch bwyd gwarchoddedig** fel rhan o'r trydydd casgliad o hysbysiau. Roedd yr hysbysiad yn dweud y bydd y DU yn sefydlu ei gynllun ei hun a fydd yn 'lled adlewyrchu' cynllun yr UE ac na fyddai'n ofynnol ar y DU i gydnabod statws Dangosyddion Daearyddol yr UE. Fodd bynnag, mae'r hysbysiad yn nodi y disgwylir:

[...] all current UK GIs will continue to be protected by the EU's GI schemes after Brexit.

## Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru ar ôl Brexit

Clywodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg **dystiolaeth lafar** gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan, ar 20 Medi, fel rhan o'i **ymchwiliad i effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach**. Mae **tystiolaeth ysgrifenedig** Llywodraeth Cymru fel rhan o'r ymchwiliad yn amlinellu'r dull gweithredu a gaiff ei ddefnyddio mewn perthynas â'r sectorau hyn ar ôl Brexit.

Yn ogystal, cyhoeddodd Sefydliad Bevan 'bapur gwyntyllu', wedi'i gomisiynu gan Prifysgolion Cymru, ynghylch sut y dylai prifysgolion Cymru ymateb i'r Gymru a fydd ohoni ar ôl Brexit. Mae'r darn yn nodi pedair rôl i brifysgolion ar ôl Brexit:

- angor economaidd, yn cyfrannu at ddatblygu rhanbarthau economaidd Cymru drwy eu pwerau fel cyflogwyr a phrynwyr;
- ffynhonnell arbenigedd, yn cyfrannu eu gwybodaeth arbenigol i helpu datrys nifer o faterion yng Nghymru a thu hwnt;
- canolfan dysgu hyblyg, yn cynnig hyfforddiant ac addysg o ansawdd uchel i weithlu'r presennol a'r dyfodol; a
- sicrhau cydraddoldeb, gan gefnogi symudedd cymdeithasol drwy alluogi ac annog cyfranogiad gan bobl o bob cefndir.

## Newid i Reolau Sefydlog y Cynulliad

Ar 3 Hydref 2018, cymeradwyodd Aelodau'r Cynulliad gynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog. Cyflwynwyd y cynnig gan fod ymadawiad y DU â'r UE yn gofyn am newidiadau i weithdrefnau'r Cynulliad er mwyn gweithredu darpariaethau yn **Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018** a'r mathau newydd o is-ddeddfwriaeth y bydd yn eu cyflwyno. Cyhoeddodd y Gwasanaeth Ymchwil **erthygl** yn trafod cefndir a manylion y newidiadau ar 2 Hydref.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Ar 29 Medi, gyda chwe mis tan y diwrnod gadael, dywedodd Prif Weinidog Cymru fod rhaid i Brif Weinidog y DU 'roi'r gorau i gamarwain y cyhoedd gyda honiadau anwir ynghylch Brexit'. Meddai:

[...] the only choice the UK has is between the Chequer's deal or 'no deal' is completely false – and peddling this myth is damaging to democracy.

### Paratodau ar gyfer ymadael â'r UE

O ran y paratodau cyffredinol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford, yn y **Cyfarfod Llawn ar 18 Medi**, fod Llywodraeth Cymru wedi:

[...] dyrannu peth o'r £50 miliwn sydd yng nghronfa bontio'r UE, rydym ni ar fin lansio porth busnes Brexit, rydym ni wedi anfon cyngor atodol ar yr hysbysiadau technegol i sefydliadau, ac rydym ni wrthi'n trafod goblygiadau argyfyngau sifil posib gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid yng Nghymru.

Aeth yn ei flaen i ddweud y câi cyfarfod nesaf y Grŵp Cyngori Ewropeaidd ei gynnal ddydd Iau 20 Medi, ond **nid yw cofnodion y cyfarfod hwnnw wedi cyhoeddi** ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Yn dilyn hyn, **ar 24 Medi lansiodd** Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ap i gefnogi busnesau bwyd a diod yng Nghymru ar ôl Brexit. At hynny, cafodd **Porthol Brexit Busnes Cymru** a grybwyllwyd gan Mark Drakeford ei lansio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates, ar 25 Medi.

Dywed Llywodraeth Cymru mai dwy nod Porthol Brexit yw:

Yn gyntaf, darparu gwybodaeth ddiweddar a chyngor ar amrywiol bynciau busnes perthnasol (gan gynnwys masnachu yn rhyngwladol a chynllunio y gweithlu) wrth inni ddechrau ar y cyfnod o chwe mis sy'n arwain at weld y DU yn ymadael â'r UE.

Yn ail, darparu dull diagnostig fydd yn gwella ein cymorth presennol i fusnesau, yn codi ymwybyddiaeth o gamau paratoi priodol a ffynonellau cymorth ychwanegol. Bydd hyn yn cynnig gwiriad parodrwydd i'r busnesau hynny sydd eisoes wedi paratoi ac yn pennu camau gweithredu allweddol i'r rheini sydd angen mwy o gymorth.

- Gellir gweld Porthol Brexit **yma**.

## Dyraniadau Cronfa Bontio yr UE

Ar 24 Medi, **dywedodd** Prif Weinidog Cymru fod dros hanner **Cronfa Bontio yr UE** o £50 miliwn bellach wedi'i neilltuo. Mae'r dyraniadau newydd o'r gronfa ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf yn cynnwys:

- **£6 miliwn** ar gyfer Airbus a'r sector modurol; a
- **£3.2 miliwn** ar gyfer pysgodfeydd, yr amgylchedd a'r diwydiant bwyd.